To: Heads of higher education institutions in Wales providing initial teacher training (ITT) courses

Reference: W04/16HE
Date: 15 March 2004
Response By: 3 May 2004
Further Information: Karen Jones, (02920 682283) karen.jones@hefcw.ac.uk

AROLYGIAD ESTYN O HYFFORDDIANT CYCHWYNNOL ATHRAWON YM MHRIFYSGOL CYMRU, BANGOR A CHOLEG PRIFYSGOL CYMRU, CASNEWYDD 2004/05: ENWEBIADAU AR GYFER AROLYGWYR YCHWANEGOL

CEFNDIR

Bydd CCAUC ac Estyn yn cydweithio'n agos wrth gyflawni eu dyletswyddau statudol unigol mewn perthynas â hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA). Mae hyn yn cynnwys recriwtio a defnyddio arolygwyr ychwanegol, sy'n cyflwyno elfen o gymar-asesu i'r broses arolygu. Fel y gwyddoch, mae Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 yn rhoi hawl i arolygwyr Estyn, gan gynnwys arolygwyr ychwanegol, fynd i mewn i sefydliadau i archwilio hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Yn sgil cyflwyno Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn ar gyfer Cymru a'r Arweiniad ar Arolygu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon ym mis Medi 2002, bu swyddogion CCAUC ac Estyn yn trafod ailstrwythuro'r trefniadau gweinyddol ar gyfer penodi a hyfforddi arolygwyr ychwanegol. Cafodd y trefniadau gweinyddol eu rhesymoli ar gyfer 2003/04 a 2004/05; rhagwelir y bydd yr holl drefniadau gweinyddol wedi cael eu symud i Estyn erbyn 2005/06.

Enwebiadau ar gyfer y Flwyddyn Academaidd 2004/05

Rwyf yn ysgrifennu i ofyn i chi am enwebiadau am arolygwyr ychwanegol ar gyfer arolygu'r ddarpariaeth gynradd ac uwchradd ym Mhrifysgol Cymru, Bangor a Choleg Prifysgol Cymru, Casnewydd yn 2004/05. Bydd enwebeion llwyddiannus yn cael eu hychwanegu at y gronfa bresennol o arolygwyr ychwanegol, a hyfforddwyd ers mis Hydref 2002. Ar ôl eu hyfforddi, gall arolygwyr ychwanegol barhau'n gymwys i'w cynnwys yn y 'gronfa' o arolygwyr ychwanegol am gyfnod o dair blynedd heb hyfforddiant pellach. Os yw arolygwyr ychwanegol yn dymuno cael eu hystyried ar gyfer y gwaith mewn unrhyw un o'r tair blynedd ar ôl cael eu hyfforddi, rhaid i'r SAU sydd wedi'u henwebu gadarnhau hyn bob blwyddyn i Estyn. Rhaid i arolygwyr sy'n dymuno parhau

i gael eu hystyried ar gyfer y gwaith gyflwyno ffurflen gais arolygwr ychwanegol bob blwyddyn. Bydd Estyn yn dewis hyd at bedwar arolygwr ychwanegol o'r gronfa hon ar gyfer pob arolygiad. Gall y nifer amrywio rhwng dau a phedwar gan ddibynnu ar faint a chymhlethdod y ddarpariaeth sy'n cael ei harolygu. Byddant yn aelodau llawn o'r tîm arolygu perthnasol a byddant yn arolygu gwaith yn-y-coleg ac yn-yr-ysgol.

Mae angen unigolion sy'n bodloni unrhyw un o'r manylebau canlynol:

1. Pennaeth ysgol gynradd neu uwchradd neu bennaeth adran mewn ysgol uwchradd sydd mewn partneriaeth â sefydliad addysg uwch yng Nghymru, y mae ganddi/ganddo
   - brofiad da fel ymarferwr;
   - diddordeb amlwg mewn HCA a phrofiad ohono;
   - gwybodaeth o'r materion;
   - hyder i fynegi barn sydd wedi'i gwreiddio'n ddwfn mewn tystiolaeth.

2. Aelod o staff mewn adran/cyfadran addysg mewn sefydliad addysg uwch yng Nghymru sy'n cynnig HCA cynradd neu uwchradd, sy'n arbenigwr cynradd neu uwchradd ac yn ymwneud ar hyn o bryd â HCA, y mae ganddi/ganddo
   - brofiad helaeth ym maes HCA;
   - cryn brofiad o addysgu mewn ysgol gynradd neu uwchradd, ac sydd wedi cynnal a datblygu'r profiad hwnnw.

Hyfforddiant ar gyfer Arolygwyr Ychwanegol, Gorffennaf 2004

Cynhelir yr hyfforddiant ar gyfer arolygwyr ychwanegol ar Ddydd Iau 8 Gorffennaf a Dydd Gwener 9 Gorffennaf 2004, yn swyddfeydd Estyn yng Nghaerdydd. Mae Estyn a CCAUC wedi cytuno y gellir rhoi hyfforddiant i oddeutu 10 i 12 o arolygwyr ychwanegol, ac y bydd o leiaf pum ohonynt yn dod o bartner ysgolion. Bydd hyfforddiant o'r fath yn cyfrannu at ddatblygiad y staff dan sylw a bydd o fudd i'w sefydliadau. Felly, am y rheswm hwn ac er mwyn sicrhau cyllid digonol ar gyfer y ddarpariaeth hyfforddi ehangach hon, telir treuliau teithio a chynhaliaeth yn unig i staff sefydliadau addysg uwch am yr elfen hyfforddi. Telir ffi hyfforddi o £250 am bob darpar arolygwr ychwanegol o bartner ysgolion i gydnabod y ffaith bod angen eu rhyddhau o ddyletswyddau ysgol tra'n derbyn hyfforddiant; byddant yn gallu hawlio treuliau teithio a chynhaliaeth hefyd.

Defnyddio Arolygwyr Ychwanegol yn 2004/05

Bydd angen i bob un o'r arolygwyr ychwanegol a ddefnyddir yn y broses arolygu fod ar gael am hyd at gyfanswm o 10 diwrnod. Rhoddir amserlen arfaethedig arolygiadau 2004/05 yn Atodiad A sydd ynghlwm. Mae gan staff ysgol hawl i ffi arolygu o £1,500 i dalu am eu rhyddhau o'u dyletswyddau arferol, sy'n cymryd i ystyriaeth y gwaith rhagarweiniol y mae angen ei wneud i baratoi ar gyfer yr arolygiad yn ogystal â'r amser a dreulir yn mynychu'r dyddiau hyfforddi ac yn ymgymryd â'r ymweliadau arolygu. Telir y ffi arolygu i'r Brifysgol a fydd yn ei throsglwyddo i ysgol yr arolygwr ychwanegol. Bydd staff y SAU yn derbyn y ffi arolygu o £1,500 hefyd, i gydnabod rhyddhau'r staff o'u dyletswyddau coleg. Bydd y Cyngor yn talu'r holl gostau teithio a chynhaliaeth ar ei gyfraddau arferol.

Dylai SAUau anfon enwebiadau ar gyfer hyfforddiant, a chadarnhad o gymhwyster ac argaeledd arolygwyr ychwanegol hyfforddedig, ynghyd â ffurflenni cais yr enwebeion, at Jonathan Cooper yn

swyddfeydd Estyn yng Nghaerdydd, ar y ffurflenni sydd ynghlwm (Atodiadau B-D), erbyn **DYDD LLUN 3 MAI 2004** fan hwyraf.

Dylai'r rheiny sy'n dymuno cael eu hystyried ar gyfer hyfforddiant yn unig ar hyn o bryd wneud hynny'n glir yn eu cais. Anogir y sefydliadau hynny a gaiff eu harolygu yn 2004/2005 i enwebu staff SAU, prifathrawon a phenaethiaid adrannau ar gyfer hyfforddiant yn unig.

Yr eiddoch yn gywir

PHILIP GUMMETT
PRIF WEITHREDWR DROS DRO

Atodiad A

Arolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon
Ym Mhrifysgol Cymru, Bangor

	CYNRADD	UWCHRADD
AROLYGIAD GWAITH YN-Y-COLEG	BAdd – Wythnos yn Dechrau 07.03.05 TAR – Wythnos yn Dechrau 07.03.05	B.Gwydd D&Th – Wythnos yn Dechrau 07.03.05 TAR – Wythnos yn Dechrau 17.01.05
AROLYGIAD GWAITH YN-YR-YSGOL	BAdd – Wythnos yn Dechrau 29.11.04 TAR – Wythnos yn Dechrau 16.5.03	B.Gwydd D&Th – Wythnos yn Dechrau 29.11.04 TAR – Wythnos yn Dechrau 16.05.05

Arolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon
Yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Casnewydd

	CYNRADD	UWCHRADD
AROLYGIAD GWAITH YN-Y-COLEG	BA & TAR - Wythnos yn Dechrau 29.11.04	BA - Wythnos yn Dechrau 22.11.04 TAR - Wythnos yn Dechrau 06.12.04
AROLYGIAD GWAITH YN-YR-YSGOL	BA - Wythnos yn Dechrau 07.03.05 TAR – Wythnos yn Dechrau 20.06.05	BA - Wythnos yn Dechrau 25.04.05 TAR - Wythnos yn Dechrau 16.05.05